# Sioe Frenhinol Cymru

22 - 25 Gorffennaf 2024

## Cystadlaethau Ieuenctid Pentref Garddwriaeth

## Dosbarthiadau ar gyfer:-

- Dosbarthiadau Garddwriaeth Ieuenctid (unigolion & grŵpiau ysgol)
- Cystadleuaeth Whilber/Berfa Addurniedig (ysgolion/cymdeithasau plant)
- Cystadleuaeth Ysgolion Sir Nawdd (ysgolion/colegau)

CAFC
RWAS





# Cyflwyniad



CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL ANRHYDEDDUS GARDDWRIAETH CAFC
ADAM JONES

Yn 2024, bydd yr adran arddwriaeth wedi'i lleoli o fewn y Pentref Garddwriaeth newydd sef gweledigaeth newydd y Gymdeithas ar gyfer garddwriaeth fel y'i lansiwyd yn Sioe 2023. Bydd y pentref yn dathlu pob agwedd ar arddwriaeth yng Nghymru – o dyfu cymunedol i dyfu masnachol ac arddangosiadau cystadleuol. Ochr yn ochr â hyrwyddo manteision iechyd a chymdeithasol garddio.

Yr ethos yw 'ysbrydoli, addysgu a chydweithio.' Bydd y pentref yn ofod i ysbrydoli trwy arddangos rhagoriaeth gydag arddangosiadau cystadleuol ac arddangosfeydd garddio. Bydd yn lle ar gyfer addysg a dysgu drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau. A bydd yn creu cyfle i gydweithio trwy fannau cymdeithasol cynhwysol, mannau cyfarfod a llwyfan i groesawu siaradwyr gwadd ac arddangosfeydd cyffrous.

Lleolir yr elfennau cystadleuol mewn ardaloedd ar wahân eleni a bydd canolfan dysgu newydd ar gyfer addysg, arddangosiadau, a datblygu sgiliau, sef y Dysgubor.

Mae dosbarthiadau newydd a chyffrous wedi'u cyflwyno yn yr Adran Iau ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd, ynghyd â chystadleuaeth sir nawdd a'r gystadleuaeth whilber/berfa addurnedig boblogaidd.



Gwneir ceisiadau trwy'r system ymgeisio ar-lein (heblaw am y gystadleuaeth sir nawdd). Cliciwch y ddolen gyswllt isod er mwyn mewngofnodi NEU i gofrestri cyfrif NEWYDD (os oes cyfrif gyda chi yn barod peidiwch a gwneud un dyblyg os gwelwch yn dda)
https://enrolment.engage-powered.com/rwas/signup/?e=44&siteid=NONLS

Dewch i ymuno â ni a dathlu cenhedlaeth newydd o dyfwyr!



# Dosbarthiadau Ieuenctid -
# oedran - 11 mlwydd oed a thanno (cynradd)

**Dim tâl ymgeisio • Gwobrau - 1af £5 2il £3 3ydd £2**

Pob dosbarth yn agored i unigolion neu grŵpiau ysgol/coleg.

1. **"GARDD GRYNO"**
   I'w osod mewn unrhyw bot/blwch; heb fod yn fwy na 45cm x 45cm

2. **CREU ANIFAIL ALLAN O LYSIAU A / NEU FFRWYTHAU YN BENNAF**

3. **FÂS YN CYNNWYS UNRHYW FLODAU NEU DDEILIACH O'R ARDD**
   Fâs i'w ddarparu gan yr arddangoswr

4. **TYFU PLANHIGYN EGSOTIG**
   e.e pen pinafal, gwreiddyn sinsir, hedyn afocado. Dechreuwch eu tyfu mor fuan a phosib fel eu bod yn barod ar gyfer y Sioe.

5. **CREU GWESTY TRYCHFILOD**
   Heb fod yn fwy na 20 x 15 x 10cm

6. **DAIL WEDI'U GWASGU O 6 COEDEN NEU LWYN WEDI'U HENWI**
   I'w harddangos ar dalenni A4 o bapur mewn ffolder

7. **BWLB GARLLEG GORAU**
   **Cystadleuaeth i'r ysgolion fynychodd a derbyniodd ewin garlleg yn y Ffair Aeaf 2023 yn unig.**

# Dosbarthiadau Ieuenctid oedran 11–16 blwydd (uwchradd)

**Dim tâl ymgeisio • Gwobrau - 1af £5 2il £3 3ydd £2**

Pob dosbarth yn agored i unigolion neu grŵpiau ysgol/coleg.

1. **LLYSIEUYN WEDI'I DYFU MEWN POTYN**
   Potyn heb fod yn fwy na 15cm

2. **FÂS YN CYNNWYS UNRHYW FLODAU NEU DDEILACH O'R ARDD**
   Fâs i'w ddarparu gan yr arddangoswr

3. **TYFU PLANHIGYN EGSOTIG**
   e.e pen pinafal, gwreiddyn sinsir, hedyn afocado. Dechreuwch eu tyfu mor fuan a phosib fel eu bod yn barod ar gyfer y Sioe.

4. **CREU GWESTY TRYCHFILOD**
   Heb fod yn fwy na 20 x 15 x 10cm

5. **DAIL WEDI'U GWASGU O 10 COEDEN NEU LWYN WEDI'U HENWI**
   I'w harddangos ar dalenni A4 o bapur mewn ffolder

Noddir Arian Gwobrau yr Adran Iau yn garedig gan:
Mr & Mrs Allan Evans
Mrs Amanda Burton

# Help Llaw!

## Tyfu planhigion egsotig ar silff ffenest

**Pinafal**

- Dewiswch binafal â dail canolog da
- Torrwch goron y dail oddi ar y ffrwyth
- Gwaredwch gnawd y ffrwyth o'r coesyn fel nad yw'n pydru
- Tynnwch y dail isaf i ddangos y coesyn yn glir
- Gadewch iddo sychu am 2 ddiwrnod
- Rhowch mewn basnaid o ddŵr neu ei blannu'n syth i bridd graeanog
- Dull dyfrio- cefnogwch y coron mewn jar o ddŵr
- Mae silff ffenest cynnes, llaith a heulog yn fan delfrydol i'w dyfu
- Mae gwreiddio (os yn llwyddiannus) yn cymryd rhyw 2 i 5 wythnos

**Gwreiddyn sinsir**

- Prynwch ddarn o wreiddyn sinsir ffres ac organig
- Gosodwch y gwreiddyn mewn dŵr dros nos
- Torrwch y gwreiddyn i ddarnau 2–5cm o hyd a gadewch iddynt sychu
- Plannwch i ddyfnder o 5cm mewn compost sy'n draenio'n dda
- Gosodwch ar silff ffenest cynnes a chysgodol (heb rew)
- Cadwch y compost yn llaith heb fod yn wlyb
- Bydd yn egino ymhen 5–6 wythnos ac yn aeddfedu ymhen sawl mis

.**Hedyn afocado**

- Agorwch yr afocado yn ofalus heb ddifrodi'r hedyn
- Tynnwch yr hedyn a'i rinsio â dŵr glan a chynnes
- Gosodwch 3 deintbig yn hanner waelod yr hedyn i'r un uchder
- Gosodwch dros fowlen o ddŵr fel bod gwaelod yr hedyn yn wlyb
- Gosodwch yr hedyn ar silff ffenest heulog i egino
- Pan fydd gwreiddiau, plannwch mewn pridd heb orchuddio pen yr hedyn
- Cadwch y compost yn llaith mewn man heulog

**Gwasgu Dail**

- Rhowch haen ddwbl o bapur amsugnol (papur cegin) ar ddarn o gardfwrdd trwchus a threfnwch y dail sych
- Gorchuddiwch y dail gyda mwy o bapur amsugnol a rhowch haen arall o gardfwrdd trwchus ar ei ben
- Rhowch bwysau trwm (brics tŷ neu garreg o faint tebyg) a gadewch mewn lle sych a chynnes am 2-3 wythnos neu nes ei fod yn sych (newidiwch y papur os yw'n llaith)
- Trefnwch y dail yn ofalus ar ddalen A4 o bapur (papur trwchus yw'r gorau e.e.100gm) defnyddiwch dabiadau o lud i osod y dail ar y papur, ychwanegwch enw'r goeden yn ogystal â phryd a lle y casglwyd y ddeilen

# RHEOLAU & THELERAU - Dosbarthiadau Ieuenctid

- **Ceisiadau'n cau - 14 Mehefin 2024.** Ni dderbynnir unrhyw geisiadau ar ôl y dyddiad cau.
- Bydd y Pentref Garddwriaeth ar agor ar gyfer derbyn arddangosion amatur o **2.00yh, dydd Sul 21 Gorffennaf 2024.** Fe'ch anogir yn gryf i ddod a llwyfannu'ch arddangosion erbyn **dydd Sul 21 Gorffennaf fan bellaf**, ond rhaid i'r holl arddangosion fod yn y pabell wedi'u llwyfannu erbyn **7.00am ddydd Llun 22 Gorffennaf 2024.**
- Bydd y beirniadu yn dechrau yn brydlon am 7:30am ddydd Llun 22 Gorffennaf. Gellir diarddel unrhyw arddangosion nad ydynt wedi'u llwyfannu'n iawn erbyn y cyfnod beirniadu.
- Bydd y Pebyll Garddwriaeth ar agor i'r cyhoedd o 10.30am ymlaen neu pan fydd y dyletswyddau beirniadu wedi'u cwblhau.
- **Ni chaniateir symud unrhyw arddangosyn amatur cyn 5pm ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024**. Cynhwysir trefniadau mynediad i arddangoswyr dynnu eu harddangosfeydd amatur i lawr yn y pecyn mynediad.
- Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i ganslo unrhyw ddosbarth sydd â nifer isel o gystadleuwyr.
- Gwerthfawrogir pe gellid hysbysu swyddfa'r Gymdeithas o ddiffyg gallu i arddangos mewn unrhyw ddosbarthiadau cyn gynted â phosibl ymlaen llaw cyn i'r sioe gychwyn.
- Ni fydd y Gymdeithas yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled neu ddifrod i arddangosion (neu unrhyw ran ohonynt) neu eiddo personol cyn, yn ystod nac ar ôl y digwyddiad, ac ni fydd y Gymdeithas ychwaith yn gyfrifol am golli unrhyw blanhigyn, blodyn neu botyn wrth eu cludo i/ neu oddi ar faes y sioe, yn ystod neu ar ôl y digwyddiad.
- Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru wedi ymrwymo i ddiogelu eich data personol a'i brosesu yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Am ragor o fanylion dylech ofyn am gopi o'n Polisi GDPR. Rydym yn prosesu eich data personol fel ag y mae'n angenrheidiol ar gyfer perfformiad ein contract gyda chi i hwyluso eich mynediad i'r digwyddiad. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data y tu allan i'r DU a'r Ardal Economaidd Ewropeaidd ac ni fyddwn yn rhannu eich data â thrydydd partïon ac eithrio awdurdodau rheoleiddio neu Gymdeithasau cysylltiedig y gallwn gyflwyno ceisiadau a chanlyniadau iddynt i gael eu gwirio am ddilysrwydd a chymhwysedd yn seiliedig ar eu buddiannau cyfreithlon. Cyhoeddir eich enw a'ch sir yng nghatalog y Gymdeithas. Dosberthir y canlyniadau gydag aelodau o'r wasg a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw eich data yn unol â'n hamserlen gadw i symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych hawliau amrywiol yn y data sydd gennym yn cynnwys cywiro a gwrthwynebu prosesu.
- Cofiwch hefyd y bydd ffotograffau a ffilm yn cael eu tynnu ledled Maes y Sioe ar gyfer eu darlledu, cyhoeddusrwydd a dibenion marchnata.
- Nodwch os gwelwch yn dda os yw'r arddangoswr o dan 18 oed yna mae'n rhaid i'r ffurflen gais ar-lein gael ei chwblhau gan riant/ gwarcheidwad sy dros 18 oed. Sylwch fod pwy bynnag sy'n llenwi'r ffurflen gais yn cymryd cyfrifoldeb llawn am gydymffurfio â'r holl reolau a rheoliadau.

# Cystadleuaeth Whilber/Berfa Addurnedig

## ‘I ddarlunio y thema Enfys’



**Enillwch arian i’ch ysgol ac ymweliad â’r Sioe trwy gymryd rhan yng Nghystadleuaeth Whilber/Berfa Addurnedig Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru**

Categori: Yn agored i Ysgolion / Cymdetihasau Plant yn unig

Gwobrau: 1af - £200 2ail - £150 3ydd -£100

Amcan, rheolau a gwybodaeth:-

- Mae’r gystadleuaeth yn agored i ysgolion/cymdeithasau plant ac nid i ddisgyblion unigol.
- Whilber/Berfa (lle plannu heb fod yn fwy na 90 x 60 cm ar y mwyaf) wedi’i phlannu â blodau a llysiau, atodion yn cael eu caniatáu, **‘I ddarlunio y thema Enfys’.**
- Rhaid peidio â rhoi enw’r ysgol ar yr arddangosyn cyn neu yn ystod y beirniadu.
- Bydd rhaid danfon cynigion i’r Babell Garddwriaeth ar safle’r sioe ar Ddydd Sul 21 Gorffennaf 2024, o 2.00yh ymlaen.
- Byddir yn cysylltu â’r ysgolion buddugol cyn gynted ag y mae’r beirniadu wedi’i gwblhau ar fore Dydd Llun 22 Gorffennaf 2024, fel y gellir gwneud trefniadau i wahodd cynrychiolwyr yr ysgolion buddugol i fynychu cyflwyniad y gwobrau sydd i’w gynnal yn y Pentref Garddwriaeth ar Ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024 am 12.15pm. Bydd nifer gyfyng o docynnau mynediad yn cael eu rhyddhau i’r ysgolion buddugol.
- Bydd yr holl gynigion yn cael eu harddangos yn y Babell Garddwriaeth yn ystod wythnos Sioe Frenhinol Cymru.
- Dyddiad cau'r ceisiadau yw Dydd Gwener 14 Mehefin 2024.
- Gwnewch eich cais trwy’r system ymgeisio ar-lein os gwelwch yn dda (nodwch bod hyn yn wahanol i’r blynyddoedd cynt pan roeddech yn anfon ceisiadau trwy’r post). Gwelwch tudalen 9.

# NEWYDD AR GYFER 2024

# Cystadleuaeth Garddio Sir Nawdd

CAFC RWAS

## Gerddi Ysgol/Colegau Ceredigion

Eleni, fel rhan o'r Pentref Garddwriaeth newydd rydym yn awyddus i ddathlu gerddi ysgol y sir nawdd mewn cystadleuaeth newydd fydd yn cydnabod ymdrechion holl staff a phlant yr ysgol/colegau mewn seremoni wobrwyo ar Faes y Sioe Fawr ddiwedd Gorffennaf.

Rydym yn chwilio am yr ardd ysgol orau fydd yn gyfuniad o dyfu llysiau, blodau a chreu cynefin i fyd natur.

**Sut i gystadlu?**
Byddwn yn agor y gystadleuaeth i ysgolion cynradd/uwchradd a cholegau addysg bellach Ceredigion ddiwedd mis Mai **<u>a bydd angen bod pob cais wedi'i yrru atom erbyn 20 o Fehefin 2024</u>**. Cyfyngir nifer y ceisiadau i un cais gan bob ysgol/coleg.

Y cyfan fydd angen ichi wneud i gystadlu ydy:

- Danfon llythyr gan y disgyblion yn nodi beth mae nhw'n tyfu yn yr ardd a sut mae nhw'n mwynhau gwneud hynny.
- Creu fideo byr o'r gofodau tyfu (wedi ei ffilmio'n llorweddol/landscape) heb fod yn fwy na 5 munud o hyd.
- Cynnwys 3 llun diddorol o'r ardd.

**Sut fyddwn ni'n pennu'r enillwyr?**
Fydd panel o feirniaid yn edrych ar bob cais yn unigol ac yn mesur cryfder y ceisiadau yn unol â'r meini prawf canlynol:

- Amrywiaeth planhigion gan gynnwys llysiau, ffrwythau a blodau.
- Ymwneud y plant â'r ardd fel rhan o'u haddysg.
- Edrychiad a chreadigrwydd yr ardd derfynol.
- Effaith gadarnhaol y gofod tyfu ar fioamrywiaeth a natur.

Bydd yr ysgol fuddugol yn derbyn hampr o adnoddau garddio i'w defnyddio yn yr ysgol a bydd rhain yn cael eu cyflwyno yn ystod y seremoni wobrwyo a fydd yn cael ei chynnal ar Ddydd Iau 25 Gorffennaf 2024. Bydd nifer gyfyng o docynnau mynediad yn cael eu rhyddhau i'r ysgol fuddugol.

**Noder -** byddwn yn arddangos clipiau fideo'r ysgol ar sgrin fawr yn ystod y Sioe Fawr ac felly fydd angen sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion fydd yn ymddangos ar y sgrin yr hawl i wneud yn unol â pholisïau a phroticolau'r ysgol/coleg. Eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau hynny a nodi'n ysgrifenedig inni wrth gyflwyno'ch cais.

# Cysylltu











**Manylion Cyswllt**

Eve Watkins
CAFC
Llanelwedd
Llanfair ym Muallt
Powys LD2 3SY
Ffon: 01982 553683
E-bost: eve@rwas.co.uk

## Ymgeisiwch ar-lein gan ddefnyddio y ddolen gyswllt:-

https://enrolment.engage-powered.com/rwas/signup/?e=44&siteid=NONLS

Dyddiad cau'r ceisiadau :-

Dosbarthiadau Garddwriaeth Ieuenctid - 14 Mehefin 2024
Cystadleuaeth Whilber/Berfa Addurniedig - 14 Mehefin 2024
Cystadleuaeth Ysgolion Sir Nawdd - 14 Mehefin 2024